SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION IN WALES
CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU

# Cronfa Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru (2025/26)

# TROSOLWG AC ARWEINIAD

## Crynodeb

Mae'r Gronfa Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru (SSCE-WF) yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei weinyddu gan SSCE Cymru, sy'n cael ei chynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am £1,000 neu £3,000 i ddarparu prosiect ym mlwyddyn academaidd 2025/26 sydd wedi'i anelu at gefnogi disgyblion sydd o deuluoedd y Lluoedd Arfog.

Mae'r cynllun ar agor am geisiadau drwy gydol y flwyddyn (13 Mawrth 2026) gan olygu y gellir datblygu ceisiadau mewn ymateb i anghenion ac ar bwyntiau pontio allweddol. Gellir derbyn ceisiadau am £1,000 ar ôl 13 Mawrth 2026, os bydd cyllid yn parhau i fod ar gael.

Gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid unwaith bob cyfnod adolygu (gweler yr adran llinell amser isod).

**SYLWCH:** mae holl gostau'r cais yn benodedig (£1,000 neu £3,000). Plîs peidiwch â gwneud cais am fwy neu lai na'r symiau penodol hyn.

## Cymhwysedd

**Mae'r rhaglen gyllid £1,000 ar agor i:**

1. Bob awdurdod lleol yng Nghymru
2. Ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru sydd ag o leiaf un plentyn o deulu Lluoedd Arfog ar eu cofrestr.

**Mae'r rhaglen gyllid £3,000 ar agor i:**

1. Bob awdurdodau lleol yng Nghymru
2. Ysgolion a gynhelir gan y awdurdod lleol yng Nghymru sydd ag o leiaf un *plentyn o deulu Lluoedd Arfog ar eu cofrestr ac sydd wedi ennill Statws Efydd Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.

***Mae diffiniad Llywodraeth Cymru o blant y Lluoedd Arfog fel a ganlyn:**

*Mae gan 'blentyn y Lluoedd Arfog' riant (rhieni) neu unigolyn (unigolion) gyda chyfrifoldeb rhiant gweithredol sydd yn bersonél y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu:*
*- Yn Lluoedd Arfog Rheolaidd neu Wrth Gefn Ei Mawrhydi - Y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol; Y Fyddin Brydeinig a'r Llu Awyr Brenhinol,* ***Neu***
*- Yn gyn-filwr y Lluoedd Arfog sydd wedi bod mewn gwasanaeth o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf,* ***Neu***
*- Bu farw un o'u rhieni wrth wasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac mae'r dysgwr wedi derbyn pensiwn o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog neu'r Cynllun Pensiynau Rhyfel.*

# Pwrpas a Blaenoriaethau

Rhaid cwblhau pob prosiect yr ymgymerir ag o dan y rhaglen noddi hon o fewn blwyddyn academaidd 2025/26. Ni fydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar gyfer prosiectau lle mae'r dyddiad cychwyn neu'r dyddiad gorffen ar ôl 31ain Awst 2026.

**Blaenoriaethau**

Anogir ymgeiswyr i ystyried:
- Anghenion eu plant lluoedd arfog
- Cydweithio rhwng awdurdodau lleol ac/ neu glystyrau ysgolion
- Sut y gellir defnyddio a rhannu arfer da.
- Cynaliadwyedd ac ymwreiddio arfer da
- Ffyrdd o fonitro a mesur yr effaith
- Sut mae'r prosiect yn cysylltu â rhaglen Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.

Bydd peilota prosiectau drwy'r rhaglen gyllid hon yn galluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i gyflwyno tystiolaeth am effaith eu gweithgareddau a allai gefnogi ceisiadau am gyllid o ffynonellau ariannu perthnasol eraill.

**Cysylltiadau â'r cwricwlwm**

Bydd pob eitem yn y cais am gyllid yn cysylltu ag un o chwe maes Dysgu a Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru.
- Y Celfyddydau Mynegiannol: dawns, drama, ffilm a'r cyfryngau digidol, cerdd a'r celfyddydau gweledol
- Iechyd a Lles: iechyd corfforol a datblygiad, iechyd meddwl ac emosiynol a lles cymdeithasol
- Y Dyniaethau: hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg, Saesneg, ieithoedd rhyngwladol a llenyddiaeth (gall ieithoedd rhyngwladol gynnwys ieithoedd modern, ieithoedd clasurol, ieithoedd cymunedol fel Pwyleg neu Pwnjabeg ac Iaith Arwyddion Prydain)
- Mathemateg a Rhifedd: dealltwriaeth gysyniadol, cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau, rhugldeb, rhesymeg resymegol a gallu strategol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg: dylunio a thechnoleg, peirianneg, cyfrifiadureg, bywydeg, cemeg a ffiseg.

# Syniadau ar gyfer cyllido a chymorth

Er mwyn sicrhau bod gan ysgolion /awdurdodau lleol ddealltwriaeth dda o brofiadau ac anghenion plant Milwyr mewn addysg yng Nghymru, argymhellir bod ymgeiswyr yn:

1. Mynychu sesiynau galw heibio SSCE Cymru perthnasol
2. Cwblhau pecyn e-ddysgu SSCE Cymru.

Gall prosiectau gynnwys:
- Prosiectau wedi'u cydlynu
- Amser staffio
- Cyrsiau / Hyfforddiant
- Adnoddau
- Prosiectau/pecynnau sy'n cael eu prynu i mewn

Dylai ymgeiswyr ddefnyddio dogfen cyngor cyllido SSCE Cymru am gymorth gyda pharatoi a chyflwyno cais am gyllid. Gweler **Atodiad 1** o'r ddogfen cyngor ariannol am fwy o wybodaeth am syniadau gyllido/prosiectau.

## Llinell amser

Gellir gwneud cais am gyllid drwy gydol y flwyddyn academaidd a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel y dangosir yn y tabl isod.

Bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu o fewn 14 diwrnod o'r terfynau amser a nodir isod.

| Cyfnod adolygu | **Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau** | **Hysbysiad ynghylch y canlyniad cyn:** | **Opsiynau cyllido** |
|---|---|---|---|
| **1** | 26 Medi 2025 | 10 Hydref 2025 | Prosiectau £1,000 a £3,000 |
| **2** | 7 Tachwedd 2025 | 21 Tachwedd 2025 | Prosiectau £1,000 a £3,000 |
| **3** | 19 Rhagfyr 2025 | 2 Ionawr 2026 | Prosiectau £1,000 a £3,000 |
| **4** | 30 Ionawr 2026 | 13 Chwefror 2026 | Prosiectau £1,000 a £3,000 |
| **5** | 13 Mawrth 2026 | 27 Mawrth 2026 | Prosiectau £1,000 a £3,000 |
| **6** | TBC* | TBC* | Prosiectau £1,000 yn unig |

**Gellir agor cylch ymgeisio ychwanegol os yw'r cyllid yn parhau i fod ar gael.*

## Y Broses Adolygu Ceisiadau

Bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu drwy gydol y flwyddyn gan dîm SSCE Cymru gan ddefnyddio matrics sgorio.

Wrth adolygu ceisiadau bydd tîm SSCE Cymru yn ystyried:

| **Cwestiwn** | | **Nodiadau canllaw** |
|---|---|---|
| 1. | Ydi'r ysgol / awdurdod lleol wedi ymgysylltu a SSCE Cymru cyn cyflwyno'r cais? | Argymhellir (nid yn hanfodol). |
| 2. | Ydi'r ysgol / awdurdod lleol wedi cwblhau hyfforddiant e-ddysgu SSCE Cymru? | Argymhellir (nid yn hanfodol). |
| 3. | Ydi'r ysgol wedi cyflawni statws Efydd Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru? | Ddim yn berthnasol i awdurdodau lleol.<br>Yn berthnasol i brosiectau £3,000 yn unig. |
| 4. | A yw amcanion y prosiect yn cyd-fynd ag anghenion plant y Lluoedd Arfog? | Dylai'r cais nodi'n glir sut y nodwyd anghenion plant y Lluoedd Arfog yn yr ysgol/ion / awdurdodau lleol a dylai'r prosiect amcanion fod yn briodol wedi'u halinio â diwallu'r anghenion hynny. |
| 5. | A yw'r amcanion a'r cynlluniau prosiect yn glir ac yn realistig? | Dylai'r cais fod ag amcan/canlyniad clir y bydd plant y lluoedd arfog yn manteisio arnynt. Efallai hefyd y bydd o fantais i gymuned ehangach yr ysgol a/neu deuluoedd lluoedd arfog. |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | A yw'r cais yn dangos gwerth am arian? | Dylai'r cais gynnwys dadansoddiad clir o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r prosiect a dangos gwerth am arian. |
| 7. | A yw'r cynlluniau i fesur yr effaith yn glir ac yn realistig? | Dylai'r cais fod yn benodol o ran sut mae'n bwriadu monitro a mesur effaith y prosiect. |
| 8. | Ydi'r prosiect yn alinio â chenhadaeth SSCE Cymru? | Dylai'r cais fod wedi'i dargedu at gefnogi plant y lluoedd arfog mewn addysg a defnyddio tystiolaeth ac adnoddau SSCE Cymru fel sail ar gyfer cynlluniau a gweithgareddau. |

**Adborth**

Gall ymgeiswyr aflwyddiannus ofyn am adborth gan SSCECymru@wlga.gov.uk ac mae croeso iddynt wneud cais newydd yn barod ar gyfer y cyfnod adolygu nesaf.

## Y Broses Adrodd

Ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus, mae'n ofynnol cwblhau datganiad effaith fer (brosiectau £1,000 – 200-300 o eiriau /  brosiectau £3,000 – 400-500 o eiriau), gyda delweddau cefnogol (os yw'n briodol), o fewn tri mis i ddyddiad darfod y prosiect.

Dylid anfon anfoneb ar gyfer cyfanswm y prosiect (£1,000 / £3,000) i CLILC ynghyd â'r adroddiad effaith. Bydd anfonebau'n cael eu talu ar ôl cwblhau'r prosiect.

Bydd gwybodaeth, data a thystiolaeth yn deillio o'r prosiectau yn helpu SSCE Cymru i flaenoriaethu eu gweithgareddau ac yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru â pholisïau perthnasol i blant y lluoedd arfog.

## Telerau ac Amodau

Pan gyflwynir y ffurflen ar-lein, gofynnir i ymgeiswyr gadarnhau'r canlynol:

- Yr wyf i/rydym ni wedi darllen ac yn deall y manylion a amlinellir yn nogfen arweiniad a throsolwg SSCE-WF (2025-26).
- O byddaf/byddwn yn llwyddiannus caiff yr arian ei wario fel y nodir yn y ffurflen gais.
- Yr wyf i/rydym ni'n deall y bydd unrhyw arian a geir drwy'r rhaglen SSCE-WF yn ddyraniad unwaith yn unig ac ni ddylid ei ystyried yn ymrwymiad gan SCCE Cymru/. CLILC na Llywodraeth Cymru i roi rhagor o arian yn y dyfodol.
- Os yn llwyddiannus yr wyf/rydym yn cytuno i gwblhau'r adroddiad effaith fel sy'n ofynnol ac o fewn y terfynau amser a osodir gan SSCE Cymru.
- Os yn llwyddiannus yr wyf /rydym ni'n cytuno i fanylion y prosiect hwn gael eu rhannu, lle bo hynny'n briodol, fel arfer da.